Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Y Gwir Anrh. Chris Huhne AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a
Newid Hinsawdd
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
3 Whitehall Place
Llundain
SW1A 2HH

22 Mawrth 2011

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

**Y PWYLLGOR CYNALIADWYEDD: Y MESUR YNNI**

Roedd yn ddrwg gennyf glywed nad oeddech yn gallu dod i gyfarfod Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Mawrth fel y trefnwyd. Rwy’n deall mai amgylchiadau annisgwyl fu’n gyfrifol am hyn, ond hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a’ch swyddogion am eich parodrwydd i ddod yn y lle cyntaf.

Yn anffodus, oherwydd bod etholiad y Cynulliad ar 5 Mai, a bod y Cynulliad yn cael ei ddiddymu ar 31 Mawrth, mae’n amhosibl i ni aildrefnu’ch ymweliad. O dan yr amgylchiadau, felly, mae Aelodau’r Pwyllgor wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch yn gofyn y cwestiynau roeddynt wedi bwriadu’u gofyn i chi ar 10 Mawrth.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu ymateb i’r cwestiynau yn yr Atodiad. Byddaf yn gwneud yn siŵr y bydd yr ymatebion yn cael eu hanfon at y Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad nesaf, a gall y Pwyllgor hwn, wedyn, benderfynu sut i fwrw ymlaen â’r mater.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8009
E-bost / Email: sustainability.comm@wales.gov.uk

## Atodiad A: Cwestiynnau Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ar y Bil Ynni

1. Pa drafodaethau a gafwyd â Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r Mesur Ynni, a faint o gyfraniad a gafwyd gan randdeiliaid yng Nghymru?
2. Sut y mae barn Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru wedi cael ei hystyried yn y Mesur Ynni?
3. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ddatblygu rheoliadau a gorchmynion a gaiff eu gweithredu drwy'r Mesur Ynni?
4. Pa drafodaethau a gafwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch datganoli'r cyfrifoldeb am ganiatadau ynni ar raddfa fawr i Weinidogion Cymru?
5. Pam y penderfynwyd peidio â chynnwys y ddarpariaeth hon yn y Mesur Lleoliaeth?
6. Beth yw eich barn am effaith debygol y ffaith bod datblygiadau sy'n gysylltiedig â chaniatadau ynni ar raddfa fawr yn parhau'n fater i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru?
7. Pa drafodaethau a gafwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch egluro'r union berthynas rhwng polisi cynllunio'r DU a pholisi cynllunio Cymru, yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig ynghylch ynni?
8. Yn eich barn chi, a oes digon o eglurder ynghylch y pwys y dylai'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a'i olynydd ei roi ar bolisi cynllunio Cymru?
9. Beth yw eich ymateb i farn rhanddeiliaid, sef nad yw'r Fargen Werdd yn ddigonol i ddileu tlodi tanwydd a bod angen strategaeth ar gyfer ôl-ffitio tai cyfan fesul stryd?
10. Sut yr ydych yn sicrhau bod y diwydiant yn cael digon o gyfarwyddyd a hyder i'w alluogi i fuddsoddi yn y Fargen Werdd?
11. Pryd yr ydych yn rhagweld y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am delerau ariannol, megis y strwythur taliadau a gwaith rheoleiddio cyfraddau llog?
12. Beth yw'r rhesymeg dros beidio â gadael i ddarparwyr y Fargen Werdd gynnwys rhai technolegau ynni carbon isel yn y Fargen Werdd, â chefnogaeth mentrau megis y Tariffau Cyflenwi Trydan a'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy?
13. Sut y caiff y Fargen Werdd ei monitro a'i gwerthuso, a beth fydd yr amserlen?
14. Beth yw'r rhesymau dros beidio â chyflwyno rheoliadau sy'n mynnu bod landlordiaid yn gwneud gwelliannau rhesymol o safbwynt effeithlonrwydd ynni, tan 2015?
15. Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau nad yw landlordiaid yn cosbi tenantiaid yn annheg am ofyn am fesurau effeithlonrwydd ynni?
16. Os oes eiddo rhent sydd wedi manteisio ar y Fargen Werdd yn dod yn wag, a fydd y landlord yn gyfrifol am dalu'r costau?

17. A fydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gallu gweld y data ynghylch Tystysgrifau Perfformiad Ynni?

18. Beth yw eich barn am yr hyn y mae rhai rhanddeiliaid yn galw amdano, sef bod angen cyflwyno deddfwriaeth gyfredol ynghylch Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn awr, ac y dylai'r data ynghylch Tystysgrifau Perfformiad Ynni fod ar gael yn ehangach i lywio penderfyniadau'r cyhoedd?

19. A allwch ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut yr ydych yn rhagweld y bydd y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn gweithio yn ymarferol, er enghraifft, faint o adnoddau a fydd ar gael, a faint o ryngweithio a fydd rhwng y Rhwymedigaeth a system gyllid y Fargen Werdd?

20. Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni newydd yn ystyried yr heriau sy'n wynebu Cymru (er enghraifft, natur bellennig eiddo) a sut y bydd yn ategu Strategaeth Tlodi Tanwydd newydd Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2010?

21. Pam nad yw'r gwaith o gyflwyno cyllidebau carbon lleol ym mhob ardal awdurdod lleol wedi ei gynnwys yn y Mesur Ynni?